Ministry of JUSTICE

NOMS National Offender Management Service

Working together to reduce re-offending

FFRAMWAITH CENEDLAETHOL COMISIYNU A PHARTNERIAETHAU

Chwefror 2008

08-09

Fersiwn 7.0

5 Chwefror 2008.

NOMS Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr

Cydweithio i ostwng aildroseddu

CONTENTS

Pennod 1: Blaenoriaethau lefel uchel 8
Pennod 2: Adnoddau a llif arian 14
Pennod 3: Yr amgylchedd comisiynu 17
Atodiad A: Comisiynu Lleol 22
Atodiad B – Blaenoriaethau ar draws y Llwybrau 24
Atodiad C: Prif gysylltiadau gwe 28
Atodiad D: Geirfa 29

Rhagair gan y Gweinidog

Rydw i'n falch o allu cyflwyno ail Fframwaith Cenedlaethol Comisiynu a Phartneriaeth y Gwasanaeth Rheoli Troseddwyr (NOMS).

Pwrpas y fframwaith hwn yw amlinellu ein blaenoriaethau a'n hadnoddau ar gyfer cylch comisiynu 2008/09. Bydd hyn yn caniatáu i'r system rheoli troseddwyr a'n partneriaid gynllunio cyflenwi gwasanaethau i droseddwyr ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Mae cyd-destun y cylch comisiynu eleni'n ei gwneud yn gylch hynod o heriol.

Yn gyntaf, mae'r galw am ein gwasanaethau'n cynyddu ar draws y system gyfiawnder yn gyffredinol. Er waethaf y gostyngiad yng nghyfraddau troseddu, mae mwy o droseddwyr yn cael eu hanfon i'r carchar ac mae mwy'n derbyn dedfrydau cymunedol sydd angen adnoddau prawf. Mae'r galwadau heriol hyn yn golygu bod carchardai a phrawf yn wynebu disgwyliadau cynyddol.

Ynghyd â newidiadau yn y galw, mae gennym setliad adolygu gwario heriol sy'n golygu bod ffocws cynyddol ar droseddu'n hanfodol. Oherwydd ein bod yn wynebu'r problemau hyn, mae'n hanfodol bod cynlluniau comisiynu ar gyfer y flwyddyn nesaf yn gallu sicrhau gwelliannau ymarferol wrth dargedu ein hadnoddau i'r bobl gywir a chyflenwi'n effeithiol. I'r pwrpas hwn, mae'r fframwaith hwn yn amlinellu rhai mesurau cenedlaethol rydyn ni'n eu hargymell i sicrhau bod comisiynwyr rhanbarthol a lleol yn gallu byw o fewn eu hadnoddau.

Yn ail, yn ychwanegol at y cyd-destun ariannol heriol hwn, mae'n rhaid i ni gynllunio ar gyfer y newidiadau mawr a argymhellwyd yn adroddiad yr Arglwydd Carter "Securing the Future: Proposals for the efficient and sustainable use of custody in England and Wales", a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2007. Mae'n hanfodol bod y cylch comisiynu hwn yn cefnogi'r cyfeiriad a amlinellwyd yn ein hymateb i Carter.

Bydd manylion sut byddwn ni'n cynllunio i weithredu cynigion yr Arglwydd Carter yn cael eu hamlinellu mewn datganiadau ac arweiniad ar wahân. Bydd yn rhaid i ni gael amser i sefydlu ein trefniadau newydd ac i ymgynghori â budd-ddeiliaid. Felly ni fydd effaith llawn y newidiadau'n hysbys ac yn barod ar gyfer trafodaethau eleni. Mae'n glir, fodd bynnag, bod yn rhaid i'r trafodaethau hyn esgor ar:

- Well effeithiolrwydd a rheoli costau,
- Dargedu adnoddau'n well, a,
- Datblygiadau hanfodol gan gynnwys cadarnhau rheoli troseddwyr

O gofio bod comisiynu'n dal i gael ei ddatblygu, am eleni'r prif fater fydd sefydlu gwaelodlin glir ar gyfer gwasanaethau ac adnoddau o fewn cytundebau lefel gwasanaeth a thargedu gwelliannau i feysydd blaenoriaeth. Gyda phrofiad y ddwy flynedd ddiwethaf, mae comisiynwyr yn awr mewn gwell safle i wneud hyn.

Ni all y system rheoli troseddwyr gyflawni ei thargedau heriol ar ei phen ei hun. Mae'n rhaid i Lywodraeth ddatganoledig Cymru, adrannau eraill y Llywodraeth, y sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector weithio gyda'i gilydd o fewn y trefniadau comisiynu a phartneriaeth ddatganoledig i sicrhau bod y gwasanaethau priodol yn cael eu cyflenwi ar y lefelau cywir i'r bobl gywir.

Mae creu'r Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) y llynedd yn cynnig cyfle i weithio'n agosach gyda phartneriaid cyfiawnder troseddol i sicrhau bod ganddyn nhw i gyd y wybodaeth angenrheidiol i ddefnyddio'r ymagwedd gorau tuag at bob troseddwr. Gan fod y pwysau ar leoedd mewn carchardai mor uchel ac o gofio'r dystiolaeth nad carchar yw'r ateb gorau bob amser, rydyn ni'n datblygu opsiynau dwys yn y gymuned ac yn defnyddio ein darpariaethau presennol i gynnig mwy o ddewis i ddedfrydwyr na gwarchodaeth.

Nid yw'r busnes o ddelio â throseddu'n hawdd ac ni fydd byth. I gyflawni dedfrydau'r llys, diogelu'r cyhoedd a delio â'r lefel uchel o aildroseddu yn ein cymdeithas, bydd yn rhaid i bawb wneud ymdrech ar y cyd: y system rheoli troseddwyr; llywodraeth genedlaethol, ranbarthol a lleol; comisiynwyr gwasanaethau; ein darparwyr o'r sector gwirfoddol a phreifat; cymunedau lleol ac, o dan arweiniad rheolwyr troseddwyr a gweithwyr proffesiynol eraill, y troseddwr ei hun.

Mae cael y system i weithio gyda'i gilydd fel hyn yn her ynddo'i hun; mae gwneud hyn o fewn amgylchiadau cyfyngedig fel hyn yn ychwanegu dimensiwn arall i'r her. Credwn fod gan gomisiynu a phartneriaeth rôl bwysig i'w chwarae i gyflawni system unol effeithiol ac effeithlon ac mae'r ddogfen hon yn disgrifio'n fanylach sut disgwyliwn i systemau rhanbarthol a lleol gyflawni hyn.

Crynodeb Gweithredol

Mae'r Cytundeb Gwasanaeth Cyhoeddus *Creu Cymunedau Diogelach* a gyhoeddwyd fel rhan o'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant diweddar yn amlinellu'r angen am ymagwedd traws-lywodraeth i ostwng aildroseddu a diogelu'r cyhoedd. Mae'r neges yn glir; ni all y system rheoli troseddwyr gyflawni ei hamcanion ar ei phen ei hun. Mae arbenigedd ac adnoddau ein partneriaid yn hanfodol i gyflawni ein hamcanion cyffredin.

Rhaid i ni reoli troseddwyr yn well ar draws eu siwrne gyfan gyda chynllun clir wedi'i gyflenwi gan ein system a'n partneriaid ar gyfer pob troseddwr.

I gyflawni hyn, mae'r llywodraeth yn gweithredu pecyn o welliannau: gwella gweithio traws-lywodraeth; ymgorffori ymrwymiadau partneriaethau mewn Cytundebau Gwasanaethau Cyhoeddus a Chytundebau Ardaloedd Lleol; darparu ffocws ar gyfer rheoli taith y troseddwr gyda rolau clir i reolwyr troseddwyr a goruchwylwyr; a gwella cynllunio a chyflenwi drwy ymagwedd comisiynu.

Felly, o fewn ein system, bydd rheolwyr troseddwyr yn sicrhau bod troseddwyr yn cael y gwasanaethau mwyaf priodol i ddelio â'u hanghenion personol (o fewn y ddedfryd a osodwyd gan y llysoedd), yn defnyddio gwasanaethau sydd wedi'u cynllunio a'u caffael gan gomisiynwyr lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ar eu rhan.

Mae Adolygiad Carter o Allu Carchardai a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2007, yn cefnogi'r ymagwedd hwn fel dull o gynnig dedfrydau effeithiol eraill pan fydd hynny'n briodol ynghyd â chefnogi comisiynu cadarnach a rheoli cytundebau er mwyn sicrhau bod effeithiolrwydd yn rhan o'r system i gyd.

Mae'r Ddeddf Rheoli Troseddwyr (OM) 2007 yn cynorthwyo'r broses gomisiynu gan alluogi creu ymddiriedolaethau prawf fel comisiynwyr lleol y gwasanaethau. Bydd ymddiriedolaethau'n gweithio gyda chomisiynwyr rhanbarthol i gyflenwi'r gwasanaethau mwyaf priodol i gyflawni gofynion Rheolwyr Troseddwyr ac anghenion perthnasol i droseddu'r troseddwyr. Bydd ymddiriedolaethau prawf hefyd yn gweithio gyda chomisiynwyr o sefydliadau eraill, yn arbennig drwy'r Partneriaethau Strategol Lleol a'u sefydliadau paralel yng Nghymru i gomisiynu gwasanaethau ar y cyd ac i ddatblygu'r trefniadau partneriaeth ar lefel leol.

Mae'r ail Fframwaith blynyddol hwn yn amlinellu:

- bwriadau a blaenoriaethau lefel uchel a sut bydd perfformiad darparwyr yn cael ei asesu;
- trefniadau newydd ar gyfer dyrannu adnoddau yn 2008/09;
- amgylchedd busnes a pherthynas lle bydd penderfyniadau a thrafodaethau comisiynu rhanbarthol a lleol yn cael eu cynnal gan gynnwys rolau a chyfrifoldebau ar amrywiol lefelau;
- yr angen am ddarparu amrywiaeth o wasanaethau i gyflawni anghenion troseddwyr o bob cefndir - y gwasanaeth cywir i'r troseddwr cywir ar yr amser cywir; a
- chysylltiadau perthnasol i feysydd polisi ehangach.

Mae'r broses o lunio'r fframwaith yn ymgorffori camau a welir yn ac sydd wedi'u hysgrifennu yng nghyd-destun y cyhoeddiad Asesiad Effaith Cydraddoldeb (gweler Atodiad D i gael cyswllt gwe).

Mae'r fframwaith yn darparu cyd-destun ehangach ar gyfer trafodaethau rhanbarthol, Cymru a lleol ac mae'n rhoi sylfaen i:

- drafodaethau SLA a chytundebau gyda darparwyr a chomisiynwyr lleol;
- drafodaethau Rheolwyr Troseddwyr Rhanbarthol (ROM) gyda darparwyr, comisiynwyr lleol a phrif bartneriaid eraill am gyd-gomisiynu a gweithio mewn partneriaeth;
- hysbysu gweithio mewn partneriaeth rhwng Cyfarwyddwr Rheoli Troseddwyr Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru; a
- chwblhau cynlluniau comisiynu gan bob un o'r Rheolwyr Troseddwyr Rhanbarthol, Cyfarwyddwr Rheoli Troseddwyr Cymru a phennaeth y tîm comisiynu cenedlaethol; a

Blaenoriaethau lefel uchel

Nid yw prif amcanion y system rheoli troseddwyr wedi newid. Rhaid i ni ganolbwyntio ar ostwng aildroseddu a diogelu'r cyhoedd. Fodd bynnag, rhaid i ni gyflawni hyn mewn dull llawer mwy unol a chydlynol i gyflenwi gwasanaeth sy'n cefnogi rheoli troseddwyr. Rhaid i ni adeiladu ar lwyddiannau blaenorol a blaenoriaethu adnoddau'n fwy effeithiol i sicrhau ein bod yn gallu cyflawni arbedion costau ac effeithiolrwydd sy'n ddisgwyliedig gan y setliad ariannol presennol.

Mae hefyd yn bwysig ystyried sut byddwn ni'n sicrhau mwy o gydraddoldeb mynediad i wasanaethau i droseddwyr mewn carchardai neu dan oruchwyliaeth yn y gymuned a deilliannau mwy cyfartal – beth bynnag yr hil, rhyw, anabledd neu nodweddion eraill. Drwy ein trafodaethau, rhaid i ni geisio cyflawni mwy o gydraddoldeb yn ein deilliannau a hybu mwy o hyder yn y System Cyfiawnder Troseddol ymhlith y grwpiau hynny lle mae hyn yn wan neu'n ddiffygiol.

Ein prif flaenoriaethau ar gyfer 2008/09 yw:

1. Sicrhau bod gwasanaethau rheoli troseddwyr o un pen i'r llall ar gael ar gyfer troseddwyr sy'n gymwys a'u bod yn cyflawni'r safonau angenrheidiol.
2. Gwella targedu ymyraethau gyda phwyslais cynyddol ar uno ymdrechion carchardai a phrawf.
3. Gweithredu blaenoriaethau byrddau rhanbarthol gostwng aildroseddu a Bwrdd Gostwng Aildroseddu Cymru.
4. Cynllunio ar gyfer cyflenwi mwy o leoedd gwarchodaeth.
5. Gweithredu Fframweithiau Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer merched ac ar gyfer carcharorion â dedfrydau amhenderfynedig i ddiogelu'r cyhoedd.
6. Sicrhau bod llysoedd yn derbyn y cyngor dedfrydu safonol ac amserol maen nhw ei angen.

Ein prif flaenoriaethau i gefnogi cyflawni comisiynu yw:

1. Defnyddio'r metrigau aildroseddu newydd lleol i greu darlun o aildroseddu.
2. Datblygu sgiliau a gallu comisiynu ar draws holl gomisiynwyr NOMS.
3. Parhau i ddatblygu partneriaethau a threfniadau cyd-gomisiynu .
4. Cynnal cyswllt effeithiol gyda dedfrydwyr.

Adeg ysgrifennu hwn, mae ymgynghori'n parhau am fetrigau rheoli troseddwyr. Mae'r prif gynigion ar gyfer 2008/09 yn cynnwys:

- Gwaredu rhai metrigau'n seiliedig ar broses i ganolbwyntio ar ddeilliannau lle mae hynny'n bosibl;
- Amnewid rhai metrigau cyfaint (er enghraifft, niferoedd sy'n mynychu rhaglenni achrededig, gwaith di-dâl ayyb) gyda chyfraddau cwblhau llwyddiannus; a
- Chanolbwyntio ar lwybrau blaenoriaeth wrth ddatblygu mesurau deilliannau cynlluniau dedfrydau.

Adnoddau a llif arian

Dros y cyfnod Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant, Ebrill 2008-Mawrth 2011, bydd yn rhaid i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder weithredu rhaglenni effeithiolrwydd helaeth i gwrdd â chyfyngiadau setliad gwario cyhoeddus heriol. Mae'r arian ar gyfer y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr yn ystod y cyfnod hwn i gael ei adolygu eto ond disgwylir y bydd i bob pwrpas yn unol â'r setliad cyffredinol ar gyfer yr Adran. Bydd hyn yn disgwyl i ni gyflenwi gwasanaethau o fewn cyfyngiadau ariannol tyn.

Rydym yn symud o system lle mae cyllidebau'n cael eu dirprwyo'n uniongyrchol i ddarparwyr presennol (gan mwyaf) i un o 'gyllidebau comisiynwyr' a 'thaliadau darparwyr'. Yn 2008/09 bydd arian yn llifo drwy Gomisiynwyr Rhanbarthol gyda'r hyblygrwydd i wneud newidiadau mewn gwasanaethau ac ail ddyrannu adnoddau. Bydd hyn yn caniatáu mwy o ffocws ar geisio'r deilliannau rydyn ni eu hangen ac yn rhoi'r hyblygrwydd i dargedu adnoddau ar y troseddwyr hynny a all achosi'r risg mwyaf.

Ar gyfer y flwyddyn nesaf, bydd comisiynwyr yn cwblhau taliadau darparwyr drwy drafodaethau cytundebau lefel gwasanaeth (SLA) fel y maen nhw'n ei wneud gyda chytundebau presennol.

Yr amgylchedd busnes a pherthynas

Bydd trefniadau 'gwerth gorau' yn arwain penderfyniadau am y rhai sydd yn y lle gorau i gyflenwi a phryd a ble i gystadlu am wasanaethau. Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio gyda chomisiynwyr a darparwyr i ddatblygu'r fframwaith ar gyfer gwerth gorau a byddwn yn ymgynghori gyda'n system ar ymagwedd arfaethedig yn fuan fel bod polisi eglur ac ymarferol ar gael o fis Ebrill 2008.

Mae'r Ddeddf Rheoli Troseddwyr yn creu ymddiriedolaethau prawf nid yn unig fel darparwyr gwasanaethau llys a rheoli troseddwyr ond hefyd fel comisiynwyr lleol. Bydd hyn yn ysgogi arloesi a chadarnhau comisiynu a chyflenwi lleol.

Bydd partneriaeth a chydweithio hyd yn oed yn fwy pwysig i sicrhau llwyddiant. Mae'r targedau PSA traws-lywodraeth newydd yn annog gweithio unol ar draws adrannau. Mae argaeledd data aildroseddu lleol a chynnwys y dangosydd aildroseddu yn y Cytundeb Ardal Lleol (LAA) yn rhoi cyfle i gadarnhau perthynas partneriaeth agosach. I sicrhau'r effeithiolrwydd angenrheidiol i weithredu o fewn ein setliad ariannol, mae'n rhaid i ni sicrhau gwell gwerth o'n trefniadau partneriaeth.

PENNOD 1: BLAENORIAETHAU LEFEL UCHEL

Mae gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder bum Amcan Strategol Adrannol (DSOs) fel y dangoswyd yn yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant (CSR). Mae ffocws NOMS ar y DSO i:

"helpu i ddiogelu'r cyhoedd a gostwng aildroseddu"

Mae NOMS yn bodoli i wella diogelwch y cyhoedd ac i ostwng aildroseddu. Mae gan NOMS darged i ostwng y nifer a difrifoldeb aildroseddu rhwng 2004 a 2011, fel yr amlinellwyd yn CSR07. Bydd lefel derfynol yr uchelgais ar gyfer y targed hwn yn cael ei sefydlu drwy'r broses ymgynghori LAA sydd ar y gweill ar hyn o bryd. Bydd y gofynion a'r targedau cysylltiol yn cael eu trafod yn bennaf ar lefelau rhanbarthol a mwy lleol o fewn ffrâm cynlluniau comisiynu a phartneriaeth rhanbarthol. Diffinnir cyfres newydd o fetrigau i gefnogi diogelwch y cyhoedd a gostwng aildroseddu i danategu'r broses hon.

Bydd yn rhaid parhau â nifer o wasanaethau presennol NOMS - cyflawni gofynion y llys, cyflawni goblygiadau statudol, cyflawni'r rhaglen gallu carchardai, cadw carcharorion yn ddiogel ac yn gyfreithlon a diogelu'r cyhoedd. Ond mae'n rhaid i ni ganolbwyntio ar gael y gwasanaeth cywir i'r troseddwr unigol yn fwy nag yr ydym yn ei wneud ar hyn o bryd a sicrhau mwy o gydraddoldeb mynediad i'r gwasanaethau hynny.

Mae ein blaenoriaethau lefel uchel, fel y gwelir isod, yn adlewyrchu blaenoriaethau NOMS ar gyfer newid gwasanaethau. Yn y cyd-destun presennol o gyfyngiadau ariannol tyn, bydd yn rhaid buddsoddi mewn meysydd blaenoriaeth uchel ac ail-leoli adnoddau o wasanaethau eraill.

Mae'r bennod hon yn delio â:

- Blaenoriaethau comisiynu
- Mesurau Effeithlonrwydd a Dat-fuddsoddi
- Asesu Perfformiad
- Pynciau a Datrys Anghydfod

Wrth weithredu'r blaenoriaethau a osodwyd yn y fframwaith hwn, mae'n bwysig ystyried sut rydyn ni'n sicrhau gwell cydraddoldeb mynediad i wasanaethau a ddarperir ar gyfer troseddwyr mewn carchardai neu sydd dan oruchwyliaeth yn y gymuned – heb ystyried hil, rhyw nac unrhyw nodwedd arall. Rhaid i ni ymdrechu i gael gwell cydraddoldeb mewn deilliannau ac i hybu mwy o hyder yn y System Cyfiawnder Troseddol ymhlith y grwpiau hyn lle mae hyn yn ddiffygiol neu'n wan.

Rydym wedi ymrwymo i weithredu'r argymhellion a wnaed yn yr asesiad effaith cydraddoldeb fframwaith y llynedd. Yn benodol, rhaid i ni gomisiynu gwasanaethau prif lif medrus yn ddiwylliannol gan gynnwys hyfforddiant a chymorth i ddatblygu ymwybyddiaeth a gallu diwylliannol ar gyfer staff llinell flaen mewn asiantaethau statudol.

Blaenoriaethau comisiynu

Mae ein blaenoriaethau comisiynu a ddiwygiwyd i ystyried Adolygiad yr Arglwydd Carter 2008/09 wedi'u rhannu yn ddau faes amlwg. Byddan nhw naill ai'n:

- effeithio'n uniongyrchol ar y modd rydyn ni'n cyflenwi gwasanaethau i droseddwyr; neu'n
- gweithredu fel galluogwyr drwy wella perthnasoedd, creu gallu a gwella medr.

Drwy ganolbwyntio ar sut byddwn ni'n cyflenwi gwasanaethau i droseddwyr, ein blaenoriaethau ar gyfer 2008/09 yw:

1. Sicrhau gwasanaethau rheoli troseddwyr o un pen i'r llall i'r troseddwyr hynny sy'n gymwys a bod darparwyr yn cyflawni'r safonau disgwyliedig. Mae rheoli troseddwyr yn allweddol i ddod ag ymdrechion darparwyr carchardai a phrawf yn nes at ei gilydd. Hefyd, rhaid i ni ymchwilio i opsiynau fforddiadwy i dargedu trefniadau goruchwylio presennol yn fwy effeithiol gyda ffocws priodol ar y troseddwyr hynny a allai achosi'r risgiau mwyaf.

Mae cyflawni'r flaenoriaeth hon yn golygu dilyn a gweithredu'r cyfrifoldebau/atebolrwydd newydd yn unol â deilliannau'r adolygiad strategol o reoli troseddwyr. Yn ychwanegol at gadarnhau'r gweithredu bydd hyn yn golygu cynnal peilot o brif elfennau'r adolygiad. Bydd hyn yn cynnwys peilot i asesu ymarferoldeb gwella dyraniad carcharorion i garchardai fel bod mwy o droseddwyr yn cwblhau eu dedfryd mewn carchar sy'n agos i'r pwynt ailsefydlu.

2. Symleiddio, moderneiddio a gwella targedu ymyraethau a chronni targedau lleol a rhanbarthol/Cymru yn gyfres genedlaethol gyda phwyslais cynyddol ar uno ymdrechion carchardai a phrawf.

Mae hyn yn golygu targedu ymyraethau cost-effeithiol ar y troseddwyr hynny lle mae'r effaith yn debygol o fod fwyaf gyda ffocws cadarnach ar droseddwyr risg uwch. Rhaid i'n gwybodaeth a'n tystiolaeth gynyddol hysbysu penderfyniadau o'r fath ynghyd â thrafodaethau trylwyr yn rhanbarthol ac yn lleol drwy gynlluniau comisiynu rhanbarthol a phartneriaethau.

Mae comisiynwyr yn cydnabod y bydd yr anghenion a aseswyd ar gyfer troseddwyr bron bob amser yn fwy na'r ymyraethau sydd ar gael. Mae hyn yn tanlinellu'r angen am well targedu ac ymyraethau dilynol i wella eu heffeithiolrwydd. Pan fydd yn bosibl, dylid manteisio ar gyfleoedd i sicrhau ymagwedd unol a all fynd ag ymyraethau drwy giât y carchar ac i mewn i'r gymuned.

3. Gweithredu blaenoriaethau Byrddau Gostwng Aildroseddu rhanbarthol i sicrhau cyflenwi lleol effeithiol a gweithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru i weithredu nodau y cytunwyd arnyn nhw gyda Bwrdd Gostwng Aildroseddu Cymru.

Mae hyn yn golygu gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth a chyd berchnogi gwaith i ostwng aildroseddu ar draws asiantaethau a sefydliadau yn y sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector. Mae'r gyfres PSA traws-lywodraeth newydd, datblygu metrigau aildroseddu lleol a phroses drafod LAA i gyd yn cynnig cyfleoedd i gadarnhau trefniadau partneriaeth ac alinio cyflenwi gwasanaethau i droseddwyr.

4. Cynllun ar gyfer cyflenwi lleoedd gwarchodaeth ychwanegol.

Bydd y rhaglen gynnwys bresennol lle'r oedden ni wedi bwriadu adeiladu 9,500 o leoedd newydd mewn carchardai, yn awr yn cael ei ehangu i gyflawni argymhellion adroddiad Carter. Bydd yn rhaid ffactoreiddio'r rhaglen hon yn drafodaethau comisiynu nid yn unig ar gyfer cytundebau lefel gwasanaeth carchardai ond hefyd yn nhermau effaith ar wasanaethau cymuned a'n partneriaid.

5. Tanategu gwell comisiynu drwy ddatblygu a gweithredu Fframweithiau Gwasanaeth Cenedlaethol i ferched ac i garcharorion â dedfrydau amhenderfynedig ar gyfer diogelu'r cyhoedd.

Bydd fframweithiau gwasanaeth cenedlaethol yn datblygu'n gerbyd manylebu fydd yn amlinellu gofynion ar gyfer trafod cytundebau lefel gwasanaeth a chytundebau cyflenwi gwasanaethau i droseddwyr. Yn ystod 2008/09, rhagwelwn y bydd dau fframwaith o'r fath yn cael eu defnyddio. Bydd y rhain yn cael eu datblygu mewn ymgynghoriad ac yn delio â merched sy'n troseddu a throseddwyr sy'n cael dedfrydau amhenderfynedig o Garcharu i Ddiogelu'r Cyhoedd (IPP). Bydd yr olaf yn cael ei gwblhau ar ôl i'r senedd ystyried y mesurau yn IPP yn y Mesur Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo.

6. Sicrhau bod llysoedd yn derbyn y cyngor dedfrydu safonol ac amserol sydd ei angen arnyn nhw.

Dedfrydwyr yw prif ddefnyddwyr y gwasanaeth NOMS, yn arbennig gwasanaethau cyngor. Mae adroddiadau cyn-dedfrydu'n ddibynnol ar nifer o safonau a metrigau, yn arbennig o safbwynt prydlondeb a rhaid iddyn nhw:

a) Adlewyrchu blaenoriaethau a gwybodaeth am effeithiolrwydd a gallu gwasanaethau yn gywir, a

b) Chael eu cyflenwi yn y dull mwyaf cost-effeithiol.

Ein brif flaenoriaethau galluogi ar gyfer 2008/09 yw:

7. Defnyddio ein maes prawf newydd a'n metrigau lefel awdurdod lleol i greu darlun mwy addysgiadol o aildroseddu. Yna, gellir defnyddio hwn i weithio tuag at ostwng cyfaint ac aildroseddu difrifol yn fwy effeithiol.

Bydd y mesur aildroseddu lleol (lefel ardal brawf) yn ein helpu i ganfod arfer da a delio â pherfformiad gwael. Bydd hefyd yn ein galluogi i gynnal ardal brawf ac asiantaethau eraill i gyfrif am y deilliant pwysig hwn.

Bydd y metrig lleol hefyd yn rhoi data mwy amserol na'r metrig cytundeb gwasanaeth cyhoeddus (PSA) cenedlaethol ac felly dylai gynnig mwy o gymorth ar gyfer gwneud penderfyniadau gweithredol. Bydd yn cymharu gwir gyfraddau gyda rhai wedi'u rhagfynegi er mwyn rheoli nodweddion y gwyddys eu bod yn effeithio ar y tebygolrwydd o aildroseddu. Mae gwybodaeth am amlder aildroseddu hefyd yn cael ei roi gan ddod â'r mesur lleol yn nes i'r dangosydd aildroseddu PSA oedolion newydd.

8. `Datblygu sgiliau comisiynu a chyd-gomisiynu a gallu ymhlith comisiynwyr ar lefel cenedlaethol, rhanbarthol a lleol (byrddau/ymddiriedolaethau prawf) a chefnogi comisiynu gyda'r drefn 'gwerth gorau' sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd.

Mae comisiynu'n dal i gael ei ddatblygu o fewn y system rheoli troseddwyr. Yn ddiweddar, lansiwyd academi gomisiynu i gynyddu sgiliau a gallu comisiynwyr yn ein system a byddwn yn cysylltu â chyfleoedd datblygu comisiynwyr eraill, er enghraifft, drwy Swyddfa'r Trydydd Sector (OTS). Byddwn yn datblygu polisi comisiynu lleol ar y cyd gyda'r ymddiriedolaethau prawf ton gyntaf yn ystod y flwyddyn i ddod.

Mae gwneud dewisiadau cadarn rhwng darparwyr yn gofyn am drefn 'gwerth gorau' tryloyw. Rydyn ni'n datblygu hon ar hyn o bryd a byddwn yn trafod gyda phrif bartneriaid yn ein system ym mis Chwefror. Bydd y fframwaith hwn yn sefydlu cyfrifoldeb ar gomisiynwyr i adolygu'n rheolaidd a ydy gwasanaethau'n cynnig y gwerth gorau yn erbyn meini prawf allweddol ansawdd, prydlondeb, priodoldeb, argaeledd a phris.

9. Parhau i ddatblygu partneriaeth gadarn a threfniadau cyd gomisiynu a chynlluniau i gefnogi amcanion diogelu'r cyhoedd a gostwng aildroseddu ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a fwy lleol.

Er bod llwybrau aildroseddu'n bwysig, yn 2008/09 byddwn yn canolbwyntio'n benodol ar iechyd troseddwyr, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer cyffuriau ac alcohol a sgiliau a chyflogaeth. Byddwn yn gwneud hyn drwy weithredu'r strategaeth iechyd troseddwyr yn effeithiol yn rhanbarthol ac yn lleol a'r Next Steps Action Plan yn Lloegr ac Uno Gyda'n Gilydd yng Nghymru – y strategaeth gostwng aildroseddu yng Nghymru.

10. Cynnal cyswllt effeithiol gyda dedfrydwyr ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a fwy lleol

Er mwyn sicrhau bod gan ddedfrydwyr yr holl wybodaeth angenrheidiol i roi dedfrydau priodol ac effeithiol, mae'n hanfodol ein bod yn cael deialog rheolaidd am:

- ganfyddiadau dedfrydwyr am anghenion adnoddau a safon cyflenwi;
- dystiolaeth o effeithiolrwydd a chost-effeithiolrwydd ymyraethau ac opsiynau dedfrydu; a
- blaenoriaethau rheoli troseddwyr ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Rhaid i benderfyniadau am 'pwy sy'n gwneud beth' yn rhanbarthol ac yn lleol, fod yn rhan o'r trafodaethau rhwng comisiynwyr a darparwyr i sicrhau 'ymdriniaeth' briodol, cydlyniad negeseuon ac osgoi dyblygu costus a di-fudd.

Mesurau Effeithiolrwydd a Datfuddsoddi

O gofio'r cyfyngiadau ariannol hynod o dyn eleni, mae'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr wedi cytuno ar fesurau a ddylai ganiatáu i gomisiynwyr a darparwyr gytuno ar gytundebau lefel gwasanaeth/contractau fydd yn cyflenwi gwasanaethau hanfodol o fewn yr adnoddau sydd ar gael a chynnal yr ymgyrch i ostwng aildroseddu.

Gofynion Effeithiolrwydd

Rhaid i Gomisiynwyr Rhanbarthol sicrhau eu bod yn byw o fewn y cyllidebau a ddyrannwyd iddyn nhw a bod darparwyr yn cyflenwi gwasanaethau gwerth am arian am yr arian sydd ar gael tra hefyd yn cyflawni targedau. Bydd y cyfaint cynyddol sy'n wynebu gwasanaethau carchardai a phrawf angen gwella'r prosesau drwy drafodaethau cadarn. Bydd yn rhaid i Gomisiynwyr Rhanbarthol gymryd arweiniad cadarn ar y mentrau ar gyfer glynu at bolisi a datblygu dull o olrhain a rheoli perfformiad.

Er mwyn byw o fewn cyllidebau, bydd yn rhaid i ddarparwyr sicrhau arbedion effeithiolrwydd ac, mewn rhai achosion, mae'n bosibl y bydd yn rhaid iddyn nhw ddatfuddsoddi o wasanaethau sy'n rhoi llai o werth am arian nag eraill.

O fewn y **Gwasanaeth Carchardai,** o wneud yr addasiadau terfynol, cafwyd setliad ariannol. Bydd y setliad hwn yn mynnu bod HMPS yn sicrhau lefel gronnus o effeithiolrwydd drwy weithredu yn y meysydd canlynol:

- Clystyru sefydliadau
- Adwerthu carchardai - ail-gytundebu
- Gostyngiad yn staff y swyddfa ardal
- Gostyngiad yng nghostau cytundeb Quantum
- Arbedion Phoenix gweddilliol

Pan fydd angen cyflawni'r setliad, bydd HMPS yn sicrhau arbedion ychwanegol drwy:

- Gyflwyno diwrnod craidd safonol mewn carchardai
- Resymoli'r broses ar gyfer archwiliadau diogeledd mewnol, yn unol â'r risg.

Bydd gan y Comisiynwyr yr hyblygrwydd i drafod y cymysgedd o wasanaethau a ddarperir gan HMPS ar lefel sefydliad o fewn y setliad y cytunwyd arno ac yn unol â chyflawni targedau perfformiad gwasanaeth cenedlaethol a rhanbarthol.

O safbwynt y **Gwasanaeth Prawf,** cytunwyd ar setliad ariannol ar gyfer pob rhanbarth. Bydd yn rhaid i Gomisiynwyr Rhanbarthol gytuno ar setliad gyda phob darparwr o fewn eu rhanbarthau er mwyn sicrhau cyllideb gytbwys gyffredinol yn eu rhanbarth. Bydd yn rhaid iddyn nhw hefyd sicrhau bod y setliad hefyd yn cyflawni targedau perfformiad cenedlaethol a rhanbarthol. Wrth gytuno gyda'r comisiynydd, bydd disgwyl i bob darparwr gyflenwi lefel o welliannau effeithiolrwydd. Gall y meysydd lle disgwylir gweld effeithiolrwydd gynnwys y canlynol, ond ni fydd hyn wedi'i gyfyngu i'r canlynol:

- Trafodaethau cyfaint cytundeb SLA i yrru gwella'r broses i amsugno cyfeintiau mwy
- Adolygiadau gwerth gorau
- Gwell rheolaeth ar raglenni
- Adroddiadau llys – gwahanu FDR/SRD
- Cyhoeddi rheolau gorfodi haenau cenedlaethol.

Os na fydd y comisiynydd rhanbarthol yn gallu sicrhau cyllideb gytbwys drwy enillion effeithiolrwydd yn unig, bydd yn trafod datfuddsoddiadau gwasanaeth priodol gyda darparwyr i gyflawni hyn.

Bydd yn rhaid i'r newidiadau eraill i'r gwasanaeth gydymffurfio â thargedau perfformiad gwasanaeth cenedlaethol a rhanbarthol.

Bydd y comisiynwyr yn trafod y cymysgedd o wasanaethau i lefel ardal/ ymddiriedolaeth brawf o fewn y setliad y cytunwyd arno ac yn unol â chyflawni targedau perfformiad gwasanaeth cenedlaethol a rhanbarthol.

Asesu perfformiad

Mae fframweithiau perfformiad a chardiau sgorio'n cael eu datblygu a'u gwella i sicrhau lefelau perfformiad ar draws amrediad o fetrigau ar lefel darparwyr, lefel comisiynwyr/rhanbarthol a'r lefel Genedlaethol.

Cyhoeddwyd cyfres metrigau NOMS ar gyfer 2008/09 ym mis Rhagfyr 2007, ac mae wedi'i llunio i adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol a nodi gofynion cyflenwi ar gyfer darparwyr.

Yn gynyddol, mae lefelau targed yn cael eu gosod yn lleol fel rhan o'r drafodaeth rhwng comisiynwyr a darparwyr. Yr eithriadau i hyn yw pan fydd ymrwymiadau traws- lywodraeth neu flaenoriaethau cenedlaethol penodol i'w cyrraedd. Mae'r mathau gosod targedau yn y tabl isod:

Dim hyblygrwydd	Hyblygrwydd		
1 Dim hyblygrwydd	2 Lleiafswm/mwyafswm lleol	3 Lleiafswm/mwyafswm rhanbarthol	4 Hyblygrwydd lleol Dim lleiafswm/mwyafswm
Gosodir y targedau'n ganolog ar gyfer pob carchar neu ardal brawf.	Mae lleiafswm/mwyafswm yn gymwys i lefel sefydliad neu ardal a gosodir hwn gan y ganolfan.	Mae lleiafswm/mwyafswm yn gymwys ar lefel ranbarthol a gosodir hwn gan y ganolfan.	Dim lleiafswm/ mwyafswm. Gall canllawiau polisi fod yn gymwys i fetrigau penodol.

Bydd cynllun busnes NOMS 2008/09 yn cynnwys lefelau targed cenedlaethol o ganlyniad i groniad y trafodaethau lleol.

Pynciau llosg a datrys anghydfod

Mae'r Fframwaith hwn yn annog trafodaethau a dadleuon synhwyrol datganoledig rhanbarthol a fwy lleol. Disgwylir y bydd gan gomisiynwyr a darparwyr berthnasoedd positif cadarn gyda'i gilydd ar sail rhannu goliau i wella gwasanaethau wrth gynnal cydbwysedd ariannol. Fodd bynnag, weithiau gall trafodaethau fod yn aflwyddiannus ac mae gennym broses o ddatrys anghydfod i'w defnyddio pan na fydd unrhyw beth arall wedi gweithio. Disgwylir i gomisiynwyr a darparwyr wneud popeth o fewn eu gallu i osgoi anghydfod a, phan fydd hynny'n digwydd, eu datrys yn gyflym ac yn llwyr.

Ar gyfer 2008/09, bydd y Broses Pynciau Llosg a Datrys Anghydfod yn cael ei arolygu gan y Grŵp Llywio Comisiynu a Masnachol sy'n cael ei gydlynu gan yr Uned Fasnachol a Chystadlaethau (CCU) fydd yn gweinyddu ac yn cefnogi'r broses.

Y bwriad yw cael proses dwy haen. Mae'r haen gyntaf yn cynnwys cymorth wedi'i anelu at osgoi'r angen am ddatrys anghydfod yn ffurfiol a bydd yn cynnwys cyngor i helpu i egluro'r pynciau, dehongli canllawiau, rhannu gwybodaeth sut mae partïon eraill wedi datrys anghydfodau tebyg ac yn cynnig awgrymiadau am reoli'r broses o drafod. Bydd yr ail haen, datrys anghydfod yn ffurfiol, yn dilyn amserlen a drefnwyd ymlaen llaw i sicrhau datrysiad erbyn diwedd mis Mawrth. Anfonir manylion y broses ar wahân.

PENNOD 2: ADNODDAU A LLIF ARIAN

Ar ôl ariannu'r rhaglen gallu a gynlluniwyd ar gyfer carchardai, mae'n rhaid i NOMS ariannu ei flaenoriaethau eraill o fewn cyd-destun cyllidebau y disgwylir iddyn nhw ddisgyn go iawn o fewn y Cyfnod CSR. Mae'r llif arian ar gyfer 2008-09 o reidrwydd yn addasiad o'r prosesau presennol. Y prif newid yw y bydd y mwyafswm o'r arian NOMS ar gyfer gwasanaethau oedolion sy'n troseddu'n llifo drwy gomisiynwyr cenedlaethol a rhanbarthol.

Mae'r bennod hon yn delio â:

- Lefelau adnoddau 2008/09 i 2010/11
- Proses Dyrannu Adnoddau
- Gofynion Effeithiolrwydd
- Adolygiad Carter a Newid Prawf
- Cyllidebau comisiynwyr
-

Lefelau adnoddau 2008/9 i 2010/11

Trosolwg

Mae arian NOMS ar gyfer y cyfnod 2008-2011 yn ddibynnol ar adolygiad pellach o fewn y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Wrth ddisgwyl ei gwblhau, ar gyfer 2008-09 mae NOMS yn cynllunio o fewn cyfanswm cyllideb adnoddau mynegol o £4,852 miliwn (o gymharu â £4,646 miliwn yn 2007-08). Mae'r codiad yn cynnwys £69m ar gyfer rhaglenni gallu a drefnwyd ar gyfer carchardai, £20m ar gyfer taliadau di-arian na ellir eu hosgoi a'r £117m sy'n weddill yn ariannu gwasanaethau presennol a'r rhaglen ddiwygio.

Mae Bwrdd NOMS wedi penderfynu ar y dyraniadau mynegol lefel uchel hyn er mwyn cyhoeddi cyllidebau mynegol dechreuol i gomisiynwyr ynghyd â ffigyrau cynllunio ar gyfer darparwyr. Seiliwyd y rhain ar y wybodaeth orau sydd ar gael er mwyn symud ymlaen i drafod SLA fydd yn cwblhau ariannu darparwyr ar gyfer 2008-09. Mae risgiau sylweddol i'r rhagdybiaethau cynllunio y mae'r ffigyrau hyn wedi'u seilio arnyn nhw a rhaid i gomisiynwyr a darparwyr gydnabod eu bod yn debygol o gael eu newid cyn cwblhau'r broses o drafod SLA. Yn benodol, nid yw'r ffigyrau ar hyn o bryd yn ystyried argymhellion posibl o'r adroddiad Carter diweddaraf o gwbl. Disgwyliwn allu gwneud arbedion pellach drwy symleiddio swyddogaethau'r pencadlys yn NOMS a HMPS ac, os yn bosibl, dychwelyd rhywfaint o'r arian i wasanaethau llinell flaen. Ond, mae nifer o risgiau a all greu gofynion ariannol.

Carchardai cyhoeddus

Y ffigwr cynllunio mynegol cyffredinol ar gyfer carchardai cyhoeddus yw £2,050 miliwn o gymharu â £1,985 miliwn yn 2007-08 (cyllideb ddirprwyedig oddi wrth NOMS ar ddechrau cyfnod). Mae ffigwr 2008-09 wedi'i seilio ar ragdybiaethau cynllunio HMPS. Mae'n cynnwys cyflawni effeithiolrwydd ac economïau mewnol y cytunwyd arnynt gan Fwrdd NOMS.

Prawf

Y ffigwr cynllunio mynegol cyffredinol ar gyfer prif grant adnoddau prawf yw £759 miliwn o gymharu â £727 miliwn yn 2007-08. Mae'r codiad yn cynnwys £17 miliwn o arian datblygu rheoli troseddwyr fydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cadarnhau datblygu rheoli troseddwyr. Mae'r arian llwybr o £6 miliwn yn dod i ben fel llif ar wahân ac mae hanner hwn wedi'i ddargyfeirio drwy'r prif grant adnoddau. Mae hanner y £22.5 miliwn a gadwyd ynghynt ar gyfer bonws perfformiad, erbyn hyn wedi'i ddargyfeirio drwy'r prif grant adnoddau gyda'r balans i'w ddyrannu yn ystod 2008-09 ar sail perfformiad 2007-08.

Y Broses o Ddyrannu Adnoddau 2008-09

Mae'r trefniadau ariannu ar gyfer 2008-09, a ddatblygwyd drwy gyswllt helaeth gyda NOMS a darparwyr y sector cyhoeddus, o reidrwydd yn addasiad o'r prosesau presennol. Y prif newid o 2007-08 yw y bydd mwyafrif arian NOMS ar gyfer gwasanaethau oedolion sy'n troseddu yn llifo drwy gomisiynwyr cenedlaethol a rhanbarthol. Mae hyn yn dangos cam go iawn ymlaen tuag at fodel wedi'i seilio ar y cysyniad o "gyllidebau comisiynwyr" a "thaliadau darparwyr" – gyda chomisiynwyr yn cwblhau incwm darparwyr y sector cyhoeddus drwy drafodaethau SLA – ond yn ddibynnol ar wiriadau clir a balansau i reoli'r newid hwn. Mae'r trefniadau'n gyson gyda Chylch Cynllunio a Chomisiynu Corfforaethol NOMS. Gwelir y prif gamau isod.

Cam 1 – Gosod y Strategaeth Ariannol Genedlaethol

Mae'r cam hwn yn dod i ben mewn cytundeb ar flaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer dyrannu adnoddau gan Fwrdd NOMS ar ran y Weinyddiaeth. Mae'n cynnwys yr ymagwedd i'w fabwysiadu ar effeithiolrwydd/economiau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Cam 2 – Gosod Cyllidebau Mynegol ar gyfer Comisiynwyr

Ar gyfer prawf, bydd y fformiwla ariannu'n rhedeg i lefel ardal brawf a'r canlyniadau'n cael eu cronni i roi cyllidebau mynegol ar gyfer comisiynwyr rhanbarthol. Ar gyfer carchardai cyhoeddus, bydd cyllidebau mynegol ar gyfer comisiynwyr cenedlaethol a rhanbarthol/Cymru wedi'u seilio ar ffigyrau a gytunwyd gyda HMPS. Bydd arian ar gyfer yr ystâd diogeledd mawr a Phencadlys HMPS yn llifo drwy'r comisiynydd cenedlaethol. Mae arian ar gyfer carchardai preifat yn llifo'n barod drwy gomisiynwyr cenedlaethol a rhanbarthol.

Bydd ffigyrau prawf a charchardai cyhoeddus a ddefnyddir i greu cyllidebau mynegol ar gyfer comisiynwyr cenedlaethol a rhanbarthol yn cael eu cario i mewn i gam SLA fel ffigyrau cynllunio a hefyd yn gosod y man dechrau ar gyfer trafodaethau SLA.

Mae'n debygol y bydd angen diwygio cyllidebau mynegol yn ystod y broses - er enghraifft o ganlyniad i newidiadau a gytunwyd yn genedlaethol - a bydd yn rhaid i gomisiynwyr a darparwyr ystyried y newidiadau hynny mewn trafodaethau SLA.

Cam 3 – Y Broses o Drafod SLA

Gellir crynhoi'r ymagwedd at drafodaethau SLA 2008-09 gyda darparwyr y sector cyhoeddus fel:

> *Caniateir i gomisiynwyr wneud unrhyw newidiadau gwasanaeth ac adleoli adnoddau cysylltiol yn ôl eu dymuniad gyda chydsyniad yr holl ddarparwyr sy'n cael eu heffeithio*

Pan fydd achos cryf dros newid, mae'r Weinyddiaeth yn disgwyl na fydd darparwyr y sector cyhoeddus yn dal unrhyw gytundeb yn ôl. Gallai hyn gynnwys adleoli rhwng (dweder) ardaloedd prawf yn yr un ardal neu rhwng gwarchodaeth a chymuned, o gael cydsyniad darparwr. Mae'r angen am gydsyniad darparwr yn golygu nad oes yn rhaid gosod terfyn canran penodol ar adleoli adnoddau.

Ni fyddai o fudd i unrhyw un wneud newidiadau i'r gwasanaeth ac adleoli adnoddau cysylltiol sy'n fwy na all y system eu cefnogi. Mae canlyniadau i unigolion o fewn y system os adleolir adnoddau ac felly rhaid selio hyn ar achos cryf a rhaid gallu ei amddiffyn ar sail gwerth am arian.

Disgwylir i gomisiynwyr a darparwyr wneud popeth o fewn eu gallu i osgoi gwrthdaro a, phan fydd hyn yn digwydd, ceisio datrys y mater yn gyflym ac yn llwyr. Bydd y Broses Datrys Materion a Dadleuon yn gweithredu o 2008/09, gyda disgwyliad cryf y bydd cydsyniad yn cael ei sicrhau heb atebolrwydd i'r broses.

Mae'r wybodaeth am gostau gweithgareddau fydd ar gael ar gyfer proses 2008/09 yn fyr o'r hyn fydd ei angen i gefnogi comisiynu "cost a chyfaint". Felly'r nod yw sicrhau bod rhannu gwybodaeth a hygyrchedd yn cael eu mwyhau a bod gwersi o'r broses yn cael eu bwydo i mewn i ddatblygu gwybodaeth ar gyfer 2009/10 a thu hwnt. I gefnogi gwelliant yn ansawdd y ddeialog yn ystod y broses o drafod SLA, mae'n bwysig bod gwybodaeth, gan gynnwys "gwaith ar y gweill" ar gael i gomisiynwyr a darparwyr ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol a'i bod yn cael ei rhannu'n agored.

Cam 4 – Cwblhau'r Ariannu

Ar gyfer y cam hwn, mae'r tîm cyllid canolog yn cymryd canlyniadau'r trafodaethau SLA, yn cadarnhau eu bod yn gallu eu cysoni i'r cyfanswm cenedlaethol ac yna'n dechrau'r broses o osod y cyllidebau hyn. Mae trefniadau rheoli arian parod yn aros fel yn 2007/08.

Cam 5 – Rheoli a Chofnodi yn ystod y flwyddyn

Mae llif cofnodi 2008/09 wedi'i seilio ar yr egwyddor o "gofnodi paralel" drwy ddefnyddio un gyfres o wybodaeth oddi wrth ddarparwyr y sector cyhoeddus i'r comisiynwyr a chanolfan NOMS. Trefniadau trosiannol yw'r rhain i reoli'r newidiadau.

O gael y wybodaeth a'r gallu a'r medr o fewn y system yn ystod 2008/09, yr ymagwedd "cytundeb bloc" yw'r un mwyaf priodol. Os bydd gorberfformio neu danberfformio oherwydd amrywiadau yn y gweithgareddau, nid oes unrhyw dâl ariannol ychwanegol na gostyngol awtomatig yn ystod y flwyddyn. Gall NOMS, y comisiynwyr neu'r darparwyr gyflwyno'r broses o newid yn ystod y flwyddyn.

PENNOD 3: YR AMGYLCHEDD COMISIYNU

I gyflawni blaenoriaethau comisiynu cenedlaethol, bydd yn rhaid i gomisiynwyr rhanbarthol weithio'n agos gyda phartneriaid rhanbarthol a lleol i sicrhau deilliannau gostwng aildroseddu a diogelu'r cyhoedd.

Cafodd y Ddeddf Rheoli Troseddwyr Gydsyniad Brenhinol ym mis Gorffennaf 2007 gan sefydlu tirlun newydd ar gyfer comisiynu gwasanaethau prawf. Bydd rhaglen ddiwygio ehangach NOMS hefyd yn sicrhau newidiadau busnes sylweddol yn 2008/09, fydd yn cefnogi ac yn cadarnhau'r trefniadau comisiynu newydd.

Mae Adolygiad Carter, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2007, yn cefnogi'r angen am reoli troseddwyr yn effeithiol a darparu ymyraethau effeithiol nad sy'n rhai gwarchodaeth ac felly sicrhau bod carchardai'n cael eu cadw ar gyfer y rhai lle mae dedfryd gadwraethol yn hanfodol.

Bydd datblygu partneriaethau rhanbarthol a lleol i gyflawni blaenoriaethau cenedlaethol yn hanfodol i gyflawni deilliannau rheoli troseddwyr. Mae'n hanfodol bod comisiynwyr ar bob lefel yn datblygu cysylltiadau priodol gydag asiantaethau, partneriaid a budd-ddeiliaid eraill er mwyn creu pecynnau gwasanaethau integredig ar gyfer troseddwyr ac osgoi dyblygu. Mae'r PSA traws-lywodraeth, metrigau perfformiad newydd a'r broses Cytundeb Ardal Lleol yn sicrhau egwyddorion allweddol i ddatblygu a chryfhau trefniadau partneriaethau presennol.

Mae'r bennod hon yn delio â:

- Y Ddeddf Rheoli Troseddwyr
- Gweithgaredd Comisiynu Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol
- Datblygu partneriaethau lleol i gyflawni blaenoriaethau cenedlaethol
- Cynnyrch a chysylltiadau perthynol i'w hystyried

Cyd-destun

Bob blwyddyn, mae NOMS yn gwario dros £4 biliwn ar wasanaethau i oedolion sy'n troseddu er mwyn gostwng aildroseddu a diogelu'r cyhoedd. Ynghyd â sicrhau gwasanaeth cadarn sy'n cyflawni gofynion dedfrydwyr, rydym yn gweithio tuag at gyflawni cynlluniau dedfryd integredig ar gyfer troseddwyr sy'n delio â'u risg personol o aildroseddu. Mae ffigyrau aildroseddu diweddar yn dangos gostyngiad o bron i 6% yn erbyn y cyfraddau a ragfynegwyd[1]. Fodd bynnag, mae aildroseddu'n dal yn bwnc pwysig. Mae dros hanner yr holl droseddu'n cael ei gyflawni gan bobl sydd wedi bod drwy'r system cyfiawnder troseddol yn barod, gyda 55% o droseddwyr yn aildroseddu o fewn dwy flynedd. Mae'r beichiau achosion cynyddol mewn carchardai a phrawf ynghyd â diffyg arian ychwanegol sylweddol yn golygu bod yn rhaid i ni barhau i edrych ar ddarparu gwasanaethau arloesol fydd yn effeithio ar aildroseddu a/neu'n sicrhau gwell cost-effeithiolrwydd.

Mae NOMS yn comisiynu gwasanaethau i oedolion sy'n troseddu yn y meysydd canlynol.

- Gwasanaethau Rheoli Troseddwyr gan gynnwys gwaith llys, asesu troseddwyr, cynllunio dedfrydau a goruchwylio troseddwyr.
- Darparu gwarchodaeth gan gynnwys lleoedd mewn carchar, cyfundrefn y carchar ac ymyraethau yn y carchar – yr olaf yn ddelfrydol mewn cyd-destun sy'n gydlynol gyda darpariaeth yn y gymuned.

1 Oedolion yn aildroseddu: Canlyniadau criw 2004, Cunliffe and Shepherd 2007

- Ymyraethau wedi'u hariannu gan NOMS yn cynnwys yr holl wasanaethau eraill i droseddwyr gan gynnwys rhaglenni achrededig a'r rhai heb eu hachredu a phob ymyrraeth sy'n berthnasol i'r saith llwybr allan o aildroseddu. Mae nifer o'r ymyraethau ar draws y saith llwybr yn gydberthynol: amrediad o gomisiynu, cyd-gomisiynu a gweithgareddau partneriaethau'n cefnogi eu cyflenwi.
- Ymyraethau wedi'u hariannu drwy adrannau eraill y llywodraeth ond wedi'u cyd-gomisiynu gan NOMS. Mae'r rhain yn cynnwys darpariaeth cyffuriau ac alcohol , gwasanaethau iechyd, gwasanaethau sgiliau a chyflogaeth a llety.
- Adeiladau Cymeradwy ar gyfer troseddwyr risg mawr yn y gymuned.

Y Ddeddf Rheoli Troseddwyr (2007)

Cafodd y Ddeddf Rheoli Troseddwyr Gydsyniad Brenhinol ym mis Gorffennaf 2007. Mae'n cynnig tirlun newydd ar gyfer comisiynu gwasanaethau prawf. Yn benodol, mae'r ddeddfwriaeth yn gosod cyfrifoldeb ar yr Ysgrifennydd Gwladol i sicrhau darparu gwasanaethau prawf. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn cyflawni'r rôl hon drwy greu system gomisiynu lle gall ddirprwyo awdurdod i gytundeb gyda darparwyr ar lefel genedlaethol, rhanbarthol neu leol.

Mae'r Ddeddf Rheoli Troseddwyr yn galluogi creu ymddiriedolaethau prawf fydd yn gweithredu fel comisiynwyr lleol. Bwriedir sefydlu'r chwe ymddiriedolaeth brawf gyntaf ar 1 Ebrill 2008. Ar yr adeg hon, bydd darpariaethau perthnasol y Ddeddf yn dod i rym yn y rhannau hynny o Gymru a Lloegr lle mae ymddiriedolaeth. Bydd darpariaethau presennol y Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llysoedd 2000 yn parhau mewn grym mewn mannau eraill wrth ddisgwyl diddymu'r byrddau presennol yn yr ardaloedd hynny.

Gwnaeth y gweinidogion yn berffaith glir yn ystod taith y Ddeddf drwy'r Senedd y bydd y system gomisiynu'n cael ei chreu o gwmpas comisiynwyr lleol cryf. Bydd y rhain naill ai'n ymddiriedolaethau prawf neu'r byrddau prawf presennol. O fis Ebrill 2008, bydd y cyrff hyn yn awr yn cyflawni'r swyddogaethau canlynol:

- Hwy fydd â'r cyfrifoldeb dros fod y darparwyr arweiniol ar gyfer rheoli troseddwyr;
- Byddan nhw'n comisiynu ymyraethau a gwasanaethau eraill; a
- Byddan nhw'n uno cyd-gomisiynu ac yn datblygu trefniadau partneriaethau lleol i gefnogi diogelu'r cyhoedd a gostwng aildroseddu.

Comisiynu Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol

Byddwn yn gweithredu system wedi'i seilio ar gomisiynu lleol er mwyn datganoli gwneud penderfyniadau. Comisiynir y gwasanaethau ar lefel leol i ateb gofynion lleol yn well ac ar lefel ranbarthol neu genedlaethol pan fydd hyn yn sicrhau gwerth gorau neu'r dulliau gorau o sicrhau bod anghenion yn cael eu cyflawni. Bydd caffael yn digwydd ar ba lefel bynnag sy'n cynnig y gwerth gorau.



Ffigwr. 1: Y tair lefel o gomisiynu

Comisiynu Cenedlaethol

Comisiynir nifer bychan o wasanaethau arbenigol yn genedlaethol pan fydd hyn yn sicrhau gwerth gorau, fel gwasanaethau cost uchel, nifer bychan. Ar gyfer 2008-09, comisiynir yr ystâd warchodaeth diogeledd mawr, yn genedlaethol.

Comisiynu Rhanbarthol ac yng Nghymru

Bydd comisiynwyr rhanbarthol yn:

- darparu arweiniad comisiynu strategol yn eu rhanbarthau;
- trefnu'r agenda gostwng aildroseddu rhanbarthol/yng Nghymru;
- canfod anghenion a diffygion mewn darpariaeth;
- creu cytundebau gyda chomisiynwyr lleol i gyflenwi rheoli troseddwyr ac ymyraethau i droseddwyr; ac
- yn dwyn comisiynwyr lleol i gyfrif am eu cyfrifoldebau cyflenwi drwy drafod SLA neu gytundebau.

Wrth drafod gydag Ymddiriedolaethau Prawf, mae rhyddid gan y comisiynwyr rhanbarthol i drafod newidiadau i fanylebau'r gwasanaeth ynghyd â chyfaint ac ariannu. Fodd bynnag, bydd yn rhaid arwyddo unrhyw newidiadau ar lefel genedlaethol i sicrhau gwasanaethau o'r safon uchaf ac nad yw unrhyw newid yn erydu arfer effeithiol sefydledig.

Bydd pob comisiynydd rhanbarthol yn defnyddio cytundebau a chytundebau lefel gwasanaeth (SLAs) a drafodwyd i ddal eu comisiynwyr a darparwyr lleol i gyfrif yn eu hardal, heblaw'r ystâd diogeledd mawr a gomisiynwyd yn genedlaethol. Yn ychwanegol at oruchwylio perfformiad yn erbyn SLAs a chytundebau, bydd comisiynwyr rhanbarthol hefyd yn delio ag amrywiadau amhriodol neu fethiannau yn y ddarpariaeth o wasanaethau a'r perfformiad.

Comisiynu Lleol

Y comisiynwyr lleol fydd yr ymddiriedolaethau a'r byrddau prawf. Bydd y byrddau'n cadw'r swyddogaeth hon hyd at 2010 heblaw lle mae ymddiriedolaeth brawf wedi'i sefydlu yn ei le.

O gylch comisiynu 2009/10 ymlaen, bydd y comisiynwyr lleol yn:

- Gwireddu gwerth gorau: cyflenwi neu gomisiynu gwasanaethau cost-effeithiol yn ôl mesur y trefniadau 'gwerth gorau' sydd ar y gorwel.
- Hyrwyddo arloesi: dangos arloesi effeithiol a phriodol a chreu cyfleoedd newydd ar gyfer arloesi. Bydd rhyddid gan yr Ymddiriedolaethau i drafod rhan-ddirymu arloesi yn eu cytundebau gyda'r comisiynydd rhanbarthol i'w helpu i gyflawni gwell ymagweddau arloesol wrth gyflenwi gwasanaethau. Bydd y gwaith arloesi hwn o'r templed safonol yn cael ei asesu gan NOMS i sicrhau cynnal safonau uchel.
- Rheoli perfformiad cytundebau: cyflawni trafodaethau effeithiol, monitro a rheoli cytundebau i sicrhau bod y darparwyr yn cyflawni perfformiad.

O 2009/10 bydd yn rhaid cael cynlluniau comisiynu lleol sy'n rhyng-ddibynnol gyda chynllunio comisiynu rhanbarthol. Dylai'r cynlluniau hyn adlewyrchu cyfraniad comisiynydd lleol penodol i'r amcanion a'r targedau rhanbarthol gyda ffocws arbennig ar yr agenda amrywiaeth a'r cytundebau gwasanaethau cyhoeddus. I gael mwy o fanylion ar y model o gomisiynu prawf y bydd yr ymddiriedolaethau yn eu profi yn 2008/9, gallwch edrych ar Atodiad B.

Datblygu partneriaethau lleol i gyflawni blaenoriaethau cenedlaethol

Swyddogaeth bwysig i gomisiynwyr fydd datblygu partneriaethau cryf, cydweithiol i sicrhau blaenoriaethu traws-lywodraeth. Bydd y dangosydd gostwng aildroseddu yn y PSA Creu Cymunedau mwy Diogel yn cynnal ffocws traws-lywodraeth a phartneriaeth ar ddelio ag aildroseddu yn 2008-2011. Mae'r broses hefyd yn llunio trefniadau i alinio ein hamcanion ar draws amrediad o feysydd cytundebau gwasanaethau cyhoeddus eraill. Mae'r rhain yn cynnwys y PSAs ar gyfer Alcohol a Chyffuriau, Sgiliau Oedolion, Oedolion sydd wedi'u gwahardd yn Gymdeithasol a PSA y Bobl Ifanc ar y Llwybr i Lwyddiant.

Bydd yn rhaid i gomisiynwyr cenedlaethol, rhanbarthol a lleol weithio gyda phartneriaid a chomisiynwyr eraill i ddatblygu trefniadau partneriaeth cadarn i ostwng aildroseddu.

Ar lefel genedlaethol, cydlynir y gwaith drwy'r Grŵp Rhyng-Weinidogaethol Gostwng Aildroseddu traws-lywodraeth a Bwrdd y Rhaglen. Cefnogir hyn gan fyrddau partneriaeth gostwng aildroseddu rhanbarthol yn y naw rhanbarth yn Lloegr a bwrdd cenedlaethol yng Nghymru. Yn y byrddau hyn mae cynrychiolwyr allweddol o asiantaethau statudol a'r sectorau preifat a gwirfoddol. Bydd yn rhaid i'r comisiynydd rhanbarthol weithio'n agos gyda Swyddfeydd y Llywodraeth (GOs) i sicrhau bod gostwng aildroseddu'n cael ei adlewyrchu'n gywir mewn trafodaethau rhwng GOs ac awdurdodau lleol a'u partneriaid dros flaenoriaethau lleol.

Ar gyfer partneriaethau lleol yn Lloegr, bydd y Mesur Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd yn gwneud yr LAA y prif gytundeb cyflenwi rhwng llywodraeth ganolog a'r gymuned llywodraeth leol gan gynnwys byrddau ac ymddiriedolaethau prawf. O 2008 ymlaen, bydd pob LAA yn cynnwys targedau gwella penodol wedi'u dewis o restr hwy. Trafodir y dewis hwn rhwng yr ardal leol a'r llywodraeth ganolog, gyda Swyddfa'r Llywodraeth (GO) sy'n gweithredu fel trafodwr y llywodraeth ganolog. Bydd comisiynwyr rhanbarthol yn cynrychioli NOMS yn y trafodaethau hyn a'r comisiynydd lleol yn cymryd rhan fel aelod o'r bartneriaeth strategol leol. Defnyddir y dangosyddion hyn i fesur perfformiad ym mhob maes dros y 3 blynedd nesaf gan ddechrau o fis Ebrill 2008.

Mae'n bwysig bod ymddiriedolaethau/byrddau prawf yn dylanwadu ar y bartneriaeth strategol leol, CDRPs, a'r LCJBs i ddelio ag aildroseddu. Bydd hyn yn cynnwys canfod a chefnogi targedau a dangosyddion gwella eraill i ostwng aildroseddu fel y rhai sy'n ymwneud â gostwng troseddu, gwaharddiad cymdeithasol a chamddefnyddio alcohol a chyffuriau.

Bydd hefyd yn hanfodol alinio blaenoriaethau a sicrhau bod gwahanol rannau'r system, er enghraifft, LCJBs a CDRPs, yn canolbwyntio ar yr un grŵp o droseddwyr. Bydd adsefydlu ac ail-leoli troseddwyr yn ôl i'r gymuned yn cael effaith sylweddol ar dargedau gostwng troseddu CDRPs presennol a hyder cyhoeddus LCJBs yn nhargedau'r system cyfiawnder troseddol.

Sefydlwyd tri chynghrair gostwng aildroseddu hefyd i wella gallu'r comisiynydd rhanbarthol i ymgynghori a chynnwys sefydliadau arbenigol a chymunedau arbennig yn y gwaith o ostwng aildroseddu:

- Mae'r Cynghrair Corfforaethol yn ceisio cynnwys cyflogwyr sy'n gweithio'n barod gyda throseddwyr wrth ofyn i eraill gymryd rhan a sicrhau bod mwy o droseddwyr yn cael swyddi cynaliadwy.
- Mae'r Cynghrair Sector Ffydd a Gwirfoddol a Chymuned yn anelu at adeiladu ar sgiliau a gwybodaeth sefydliadau lleol sy'n gweithio gyda throseddwyr mewn carchardai ac yn y gymuned.
- Mae'r Cynghrair Cymdeithas Ddinesig i weithio'n agos gyda llywodraeth leol, sefydliadau a chymunedau lleol yn hyrwyddo'r agenda gostwng aildroseddu.

Comisiynu gwasanaethau i ferched

Ym mis Ionawr 2007, cyhoeddodd y Farwnes Corston ei hadolygiad o ferched bregus yn y System Cyfiawnder Troseddol. Mae'r Llywodraeth wedi derbyn yr angen am gadarnhau'r amrediad o ddarpariaethau nad sy'n rhai gwarchodaeth ac sydd ar gael i ddedfrydwyr wrth ddedfrydu merched. O ganlyniad i hyn, bydd NOMS yn llunio Fframwaith Gwasanaethau Cenedlaethol i Ferched erbyn mis Ebrill 2008. Ar ôl ei gyhoeddi, bydd y Fframwaith hwn yn egluro blaenoriaethau'r gwasanaeth i gomisiynwyr a darparwyr i'w hystyried wrth gytuno ar lefelau gwasanaeth.

ATODIAD A: COMISIYNU LLEOL

Wrth gyflenwi Rheoli Troseddwyr, mae'r Rheolwr Troseddwyr yn gweithio gyda'r troseddwr unigol i gytuno a chyflenwi gofynion y cynllun dedfryd. Rôl y comisiynydd lleol yw sicrhau adnoddau priodol i gefnogi'r broses hon. Bydd y comisiynydd lleol yn creu ac yn comisiynu pecynnau o wasanaethau ar gyfer gwahanol adrannau o'r boblogaeth o droseddwyr. O'r rhain, bydd y Rheolwr Troseddwyr yn dewis y llinynnau amrywiol sydd eu hangen ar gyfer y pecynnau integredig, holistaidd gorau i gyflawni anghenion y troseddwr unigol.

Y rhyngberthynas rhwng y Rheolwr Troseddwyr a'r comisiynydd lleol fydd yn sicrhau bod comisiynu, cyd-gomisiynu a threfniadau partneriaeth yn cefnogi cyflenwi amcanion NOMS.

Bydd y broses gomisiynu yr ydym yn awyddus i'w phrofi gyda darparwyr dros y flwyddyn nesaf, fel a ganlyn:

- Bydd y Comisiynydd Lleol, drwy ei Reolwyr Troseddwyr, yn asesu anghenion troseddwr ac yn sicrhau bod Cynlluniau Dedfryd yn cael eu gwneud yn briodol.
- Bydd y Comisiynydd Lleol yn llunio gwasanaethau i'w cyflenwi yn yr Ardal i gyflawni anghenion y Llysoedd, dioddefwyr, cymunedau a defnyddwyr gwasanaethau mewn ymgynghoriad gyda budd-ddeiliaid mewnol ac allanol. Yn bennaf, bydd y Comisiynydd Lleol yn gweithio ar y cyd gyda'r Comisiynydd Rhanbarthol i sicrhau bod cynlluniau Rhanbarthol a Lleol yn cyflenwi ei gilydd.
- Bydd y Comisiynydd Lleol, wedi llunio'r gwasanaethau, yn gweithio gyda Rheolwyr Troseddwyr i flaenoriaethu'r defnydd o'r adnoddau hynny'n unol â pholisïau lleol a'r cytundeb gyda'r Rheolwr Troseddwyr Rhanbarthol.
- Bydd y Comisiynydd Lleol, fel darparwr arweiniol, yn comisiynu'r amrediad o wasanaethau i'w cyflenwi drwy gymhwyso egwyddorion Gwerth Gorau – drwy drefniadau cyd-gomisiynu pan fydd hynny'n briodol.
- Bydd y Comisiynydd Lleol yn disgwyl i'r Rheolwyr Troseddwyr ddefnyddio'r gwasanaethau a gafwyd gan y comisiynwyr Lleol, Rhanbarthol a Chenedlaethol, ynghyd â'r cyd-gomisiynwyr a'r partneriaid. Bydd y Rheolwr Troseddwyr yn defnyddio'r gwasanaethau ac yn eu blaenoriaethu yn erbyn angen, risg o aildroseddu a risg o niwed o fewn polisïau'r Comisiynydd Lleol.
- Bydd y Comisiynydd Lleol yn cronni data deilliannau perthynol i droseddwyr unigol i asesu cost-effeithiolrwydd y gwasanaethau a gafwyd ac i hysbysu penderfyniadau llunio'r dyfodol a thrafodaethau cytundebol gyda'r Comisiynydd Rhanbarthol.

Bwriadwn ddatblygu ein dealltwriaeth a'n manylion am y camau mewn partneriaeth gyda'r ymddiriedolaethau prawf ton gyntaf.

Tanategir y broses hon gan y tasgau allweddol canlynol y bydd yn rhaid i'r comisiynydd lleol hefyd eu perfformio:

- Cytuno ac ymateb i dargedau gwella lleol. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn dirprwyo'r cyfrifoldeb hwn i'r comisiynydd lleol drwy gytundeb. Bydd y comisiynydd rhanbarthol yn sicrhau bod y cytundeb gyda'r comisiynydd lleol yn galluogi cyflawni'r goblygiadau hyn.
- Cysylltu gyda phartneriaid eraill yn y bartneriaeth strategol leol (LSP) i gytuno a gweithredu Cytundebau Ardal Lleol (Las).

- Gweithio gyda'r comisiynydd rhanbarthol i sicrhau eu bod yn delio â materion amrywiaeth, yn canfod diffygion lleol a rhanbarthol ac yn cymryd camau i wella'r diffygion hyn pan fydd hynny'n briodol.
- Cynrychioli NOMS mewn trefniadau cyd-gomisiynu a phartneriaeth gyda chyrff statudol eraill e.e. Partneriaethau Gostwng Trosedd ac Anhrefn (CDRPs), cyrff anstatudol fel sefydliadau VCS a Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol (LCJBs) ac mewn gwaith gyda'r cymunedau lleol i ostwng aildroseddu a'r lefel o aildroseddu difrifol. Bydd hyn yn sicrhau mynediad i wasanaethau sy'n cefnogi rheoli troseddwyr a bod comisiynwyr lleol yn chwarae eu rhan yn llawn mewn cynghreiriau gyda chomisiynwyr a darparwyr eraill.

ATODIAD B – BLAENORIAETHAU AR DRAWS Y LLWYBRAU

Sgiliau a Chyflogaeth

Mae cyflogaeth yn ffactor arwyddocaol wrth ostwng aildroseddu. Fodd bynnag, nid oes gan nifer o'r troseddwyr y sgiliau angenrheidiol ar gyfer cyflogaeth na'r gallu i gystadlu'n effeithiol am swyddi.

Yn Lloegr, mae addysg a sgiliau galwedigaethol yn cael eu cynnig i droseddwyr drwy'r Gwasanaeth Addysg a Sgiliau i Droseddwyr (OLASS). Mae'r gwasanaeth hwn yn integreiddio darpariaeth addysg a sgiliau i droseddwyr mewn gwarchodaeth ac yn y gymuned ac mae'n cael ei gynllunio a'i ariannu gan y Cyngor Addysg a Sgiliau (LSC). Blaenoriaeth i Reolwyr Troseddwyr Rhanbarthol yw sicrhau bod darpariaeth OLASS yn cyflawni anghenion troseddwyr unigol tra hefyd yn canolbwyntio ar ddelio â'r sgiliau sydd eu hangen o fewn y rhanbarth. Pan na fydd y rhain ar gael yn barod, dylai ROMs geisio cael eu cynrychioli ar strwythurau rhanbarthol perthnasol sy'n dylanwadu ar agendau sgiliau a chyflogaeth, fel y Partneriaethau Datblygu Sgiliau Rhanbarthol.

Mae 'Gostwng Aildroseddu drwy Sgiliau a Chyflogaeth: y Camau Nesaf' yn amlinellu gweledigaeth i ddatblygu polisi sgiliau a chyflogaeth ymhellach ar gyfer troseddwyr. Mae'r Camau Nesaf yn amlinellu tri maes blaenoriaeth allweddol:

- I Waith ac I Ffwrdd oddi wrth Droseddu – cynnwys cyflogwyr drwy'r Cynghrair Corfforaethol;
- Ennill Sgiliau a Gwella Cyflogadwyedd– adeiladu ar Wasanaeth Addysg a Sgiliau i Droseddwyr a datblygu model campws;
- Cymhelliant i Weithio, Cymwys ar gyfer Cyflogaeth – cadarnhau'r pwyslais ar sgiliau a swyddi mewn carchardai a phrawf.

Bydd ROMs, a phob partner sy'n ymwneud ag ef, yn allweddol i ddosbarthu arfer gorau ac edrych ar y gwersi a ddysgwyd o'r ddau 'Ranbarth Profi' (Gorllewin Canolbarth Lloegr a Dwyrain Lloegr) a gweithredu newidiadau pan fydd hynny'n briodol.

Wrth ddatblygu'r agenda gyflogaeth, bydd ROMs yn chwarae rôl allweddol i gefnogi'r ymagwedd Cynghrair Corfforaethol drwy gysylltu â chyflogwyr, sefydliadau cyflogwyr a'r sectorau gwirfoddol, cymunedol a ffydd. Hefyd, pan nad ydyn nhw'n bodoli'n barod, bydd yn rhaid i ROMs ac Ardaloedd Prawf:

- Geisio cynnwys cymorth cyflogaeth/cyflogadwyedd i droseddwyr mewn Cytundebau Ardal Lleol;
- Sicrhau mynediad i wybodaeth, cyngor a gwasanaethau arwain safonol;
- Hyrwyddo hunangyflogaeth a chyfleoedd menter i droseddwyr;
- Sicrhau bod anghenion grwpiau amrywiaeth yn cael eu hystyried.

Gwasanaethau Iechyd

Mae'r Strategaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Droseddwyr yn rhaglen waith tair blynedd a luniwyd i adeiladu ar y cynnydd a wnaed yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf wrth ddiwygio iechyd carchardai, cofleidio'r system a diwygio cyflenwi gwasanaethau i droseddwyr naill ai mewn gwarchodaeth neu yn y gymuned. Fel cyd-strategaeth DH/HO/MOJ, bydd yn anelu at gyflawni rhaglen waith integredig drwy weithio gyda Swyddfeydd y Llywodraeth, y GIG a'r asiantaethau cyfiawnder troseddol i helpu i gyflawni cyd dargedau'r llywodraeth, i ddelio ag anghydraddoldebau iechyd a helpu i ostwng aildroseddu.

Ffocws y Strategaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Droseddwyr fydd cael ymrwymiadau rhyngadrannol i wneud y newidiadau angenrheidiol i bolisi a chymorth gwasanaethau mewn amrediad o feysydd perthynol ar draws llwybr y troseddwr, o amser yr arestio i oruchwyliaeth yn y gymuned ôl-rhyddhau neu ddedfryd yn y gymuned.

Cyffuriau

Mae'r cysylltiad rhwng dibyniaeth ar gyffuriau a throseddu wedi'i sefydlu, gyda lefelau uchel iawn o droseddu'n digwydd i ariannu'r cyflenwad o gyffuriau. Mae tua un rhan o dair o gamddefnyddwyr cyffuriau sy'n achosi problemau yng Nghymru a Lloegr yng ngofal gwasanaethau cywir ar un adeg, sef hanner cyfanswm eu baich achosion.

Felly, mae delio â dibyniaeth ar gyffuriau'n elfen hanfodol wrth ostwng aildroseddu. I droseddwyr â phroblem gyffuriau, mae'n hanfodol yn gyntaf cyflawni ei angen am driniaeth gyffuriau er mwyn creu llwyfan lle gellir delio'n fwy llwyddiannus â chymorth ehangach a'r angen am ailsefydlu.

Mae gan bob carchar strategaeth gyffuriau gynhwysfawr i ddelio â'r niwed y mae cyffuriau anghyfreithlon yn ei achosi. Y Gofyn am Adsefydlu oherwydd Cyffuriau (DRR) yw'r prif lwybr cyflenwi ar gyfer ymyraethau cyffuriau o fewn dedfrydau yn y gymuned.

Prif flaenoriaethau DRRs yw:

- Parhau i gynyddu'r nifer o ddechreuadau a chwblhau;
- Meysydd cymorth i gyflawni'r mesur perfformiad newydd ar gyfer cadw yn y cyfnod 12 wythnos. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod hyn yn hanfodol i gael effaith ar gamddefnyddio sylweddau a throseddu.
- Targedu meysydd perfformiad gwael a chynnig help i wella perfformiad;
- Gweithio gyda DIP ac NTA i gefnogi cyflawni targedau drwy ymagwedd ar y cyd at faterion allweddol e.e. ariannu, mynediad i driniaeth;
- Diweddaru'r arweiniad gweithredu DRR presennol.

Alcohol

Mae alcohol yn broblem i nifer sylweddol o'r rhai sy'n rhan o'r gwasanaethau cywiro. Mae cyfran uchel o garcharorion sydd wedi'u dedfrydu'n cael eu dosbarthu fel yfwyr peryglus yn y flwyddyn cyn dod i mewn i'r carchar gyda'r mwyafrif ag anghenion triniaeth isel-ganolig. Y blaenoriaethau allweddol i garchardai yw:-

- Cynnal y gwasanaethau trin alcohol presennol gyda'r pwyslais ar wella cysondeb y driniaeth a lledaenu arfer da; a
- Phan fydd hi'n ymarferol, datblygu gwasanaethau alcohol a cheisio atebion arloesol i ehangu'r driniaeth.

Mae darpariaeth bresennol ar gyfer troseddwyr sy'n camddefnyddio alcohol ac sydd o dan oruchwyliaeth brawf yn cael ei chyflenwi mewn partneriaeth gydag amrediad o asiantaethau gwirfoddol a statudol. Yn unol â Modelau Gofal ar gyfer Camddefnyddwyr Alcohol (MoCAM), mae'n rhaid i gomisiynwyr sicrhau bod amrediad o ymyraethau o safon uchel ar gael y gall troseddwyr sy'n camddefnyddio alcohol gael atyn nhw a symud rhyngddyn nhw yn ôl eu hangen.

Blaenoriaethau allweddol ar gyfer prawf i ostwng troseddu'n berthynol i alcohol:

- gwella cyflymder a chywirdeb canfod anghenion alcohol a throseddu;
- cynnig cyngor a gwybodaeth fwy amserol a phriodol ac atgyfeirio at driniaeth strwythurol, pan fydd hynny'n briodol;
- cynyddu argaeledd a hygyrchedd amrediad eang o ymyraethau ar sail tystiolaeth; a
- mwy o barhad rhwng yr hyn sy'n cael ei gynnig mewn carchar a'r hyn a gynigir yn y gymuned.

Bydd hyn yn cael ei gyflawni yn 2007-08 drwy bum cam blaenoriaeth a adlewyrchwyd yn y cyhoeddiad diweddar *Diogel. Synhwyrol. Cymdeithasol - Y camau nesaf yn y Strategaeth Alcohol Genedlaethol*:

- cyhoeddi pecyn gwybodaeth am alcohol ar gyfer troseddwyr dan oruchwyliaeth brawf;
- cyhoeddi arweiniad gweithredu Gofynion Triniaeth Alcohol (ATR) diwygiedig;
- dosbarthu pwyntiau dysgu o saith prosiect arfer gorau alcohol ar draws y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol;
- gwaith ymchwil i archwilio i argaeledd a hygyrchedd triniaeth alcohol i droseddwyr i hysbysu polisi i wella darpariaeth alcohol; a
- chynnal peilot pellach a gwerthuso Modiwl Alcohol Dwysedd Llai (LIAM)

Llety

Llety yw'r sylfaen i adeiladu nifer o'r ymyraethau gostwng aildroseddu ehangach. Mae llety sefydlog o safon da yn sicrhau diogeledd a sefydlogrwydd i droseddwyr ar ôl eu rhyddhau o garchar ac yn ystod eu cyfnod o dan ddedfryd gorchymyn cymunedol. Rhaid i ni sicrhau bod data tai, digartrefedd a chymorth tai priodol ar gael i hysbysu penderfyniadau comisiynu. Dylai ROMS geisio mwyhau'r adnoddau sydd ar gael i roi cyngor a chymorth tai, darparu ymagweddau cydlynol i ddarparwyr tai yn y sectorau cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat a sicrhau bod gan staff cynghori'r medrau a'r sgiliau angenrheidiol i ddarparu cymorth effeithiol.

Dylai blaenoriaethau ROMs gynnwys:

- Darparwyr arweiniol i gymryd ymagwedd integredig at ddarganfod a chefnogi llety i droseddwyr sy'n tynnu o drefniadau a phrotocolau lleol;
- Cyswllt parhaus gyda phrawf gyda chyrff comisiynu Cefnogi Pobl yn cynrychioli budd troseddwyr, a hybu targedau i droseddwyr drwy ddatblygu Cytundebau Ardal Lleol;
- Sicrhau bod gwasanaethau llety'n cyflawni anghenion grwpiau lleiafrifol troseddwyr yn arbennig merched sy'n troseddu a'u plant.

Budd-daliadau Ariannol a Dyled

Tri phrif flaenoriaeth y llwybr Cyllid, Budd-daliadau a Dyled yw:

- **Gallu ariannol** - hyfforddiant i droseddwyr gan sefydliadau'r Sector Gwirfoddol yn y Gymuned mewn gwarchodaeth neu yn y gymuned neu gyd-gomisiynu hyfforddiant gallu ariannol gyda'r Cyngor Addysg a Sgiliau drwy'r Gwasanaeth Addysg a Sgiliau i Droseddwyr (OLASS).
- **Cyngor ar ddyledion a Mynediad i fudd-daliadau** – gweithio mewn partneriaeth neu gomisiynu gwasanaethau oddi wrth sefydliadau VCS a all gynnig cyngor ar broblemau dyledion troseddwyr. Mynediad i fudd-daliadau – gweithio mewn partneriaeth gyda DWP a Chanolfan Byd Gwaith i wella mynediad troseddwyr i fudd-daliadau.
- **Mynediad i wasanaethau ariannol** - gweithio mewn partneriaeth gyda darparwyr gwasanaethau ariannol fel banciau a chwmnïau yswiriant i wella mynediad troseddwyr i wasanaethau ariannol.

Rhaglenni Ymddygiad Troseddwyr

Heblaw bod troseddwyr yn datblygu agweddau ac ymddygiadau rhag-gymdeithasol a'u bod yn cael eu hysgogi i newid, ni fyddan nhw'n gallu elwa o'r cyfleoedd a'r cymorth o lwybrau eraill. Mae tystiolaeth ryngwladol sy'n dangos bod ymyraethau gwybyddol-ymddygiadol yn un o'r dulliau mwyaf effeithiol o ostwng y tebygolrwydd o aildroseddu. Y flaenoriaeth yw sicrhau bod comisiynu ymyraethau'n parhau i fod ar sail tystiolaeth; eu bod yn cael eu cyflenwi mewn gwarchodaeth ac yn y gymuned pan fydd hynny'n briodol; bod cyflenwi o safon uchel yn parhau wrth ganiatáu mwy o hyblygrwydd i sicrhau bod anghenion lleol yn cael eu cyflawni; ac annog ymagwedd mwy ymatebol at grwpiau penodol o droseddwyr.

I adeiladu ar y gweithgareddau presennol, byddwn yn:

- datblygu ymagwedd cynhwysfawr at werthuso rhaglenni ymddygiad troseddwyr yn y tymor canolig/hir;
- adolygu a diweddaru rhaglenni achrededig presennol i sicrhau addasrwydd i bwrpas;
- creu cyfres o safonau ar gyfer ymyraethau eraill;
- adolygu darpariaeth ymyraethau ATB i ferched sy'n troseddu; ac yn
- ymchwilio i sut y gellir defnyddio adnoddau cyfyng yn fwyaf effeithiol drwy dargedu ymyraethau'n well.

Plant a Theuluoedd

Mae'r *Strategaeth Bum Mlynedd ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd a Gostwng Aildroseddu'n* amlygu'r "angen am sicrhau bod cysylltiadau cymdeithasol a theuluol yn ganolog i reoli troseddwyr." Nod y Llwybr Plant a Theuluoedd yw cefnogi hyn drwy helpu troseddwyr i gynnal eu cyswllt teuluol a thrwy fwyhau'r effaith sydd gan deuluoedd cefnogol i sicrhau bod ymyraethau i ostwng aildroseddu'n llwyddiant. Y ffocws ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn 2008/09 yw:

- Datblygu'r *Fframwaith i wella magu plant a chymorth i deuluoedd* i gynnwys hyn wrth gyflenwi gwasanaethau i'r grŵp hwn o fewn cynlluniau rhanbarthol a lleol;
- Gweithio gyda'r Cynghorau Addysg a Sgiliau ac eraill i wella comisiynu darpariaeth i droseddwyr sydd angen help gyda'u perthynas a'u sgiliau magu plant; a
- Gweithio gydag asiantaethau lleol i wella mynediad i wasanaethau sy'n cefnogi nodau'r llwybr gan gynnwys rôl y gwasanaethau prawf i gyfarwyddo troseddwyr a'u teuluoedd at wasanaethau lleol.

Mae'r Llwybr Plant a Theuluoedd hefyd yn anelu at hybu cydweithio agosach gyda'r gwasanaethau lleol, y VCS a chymunedau ffydd i wella deilliannau i blant a theuluoedd troseddwyr sy'n wynebu gwaharddiad cymdeithasol. Mae hyn yn cysylltu gwaith y llwybr i mewn i agenda ehangach y Llywodraeth sy'n ymwneud â lles plant drwy *Mae pob Plentyn yn Bwysig*. Mae hyn yn cynnwys rôl allweddol y gwasanaethau prawf i rannu gwybodaeth ac uno gyda'r gwasanaethau plant a gwasanaethau lleol eraill yn y gymuned i sicrhau diogelu a lles plant troseddwyr.

Cynllun Gweithredu'r Trydydd Sector

Bydd gan Gynllun Gweithredu'r Trydydd Sector weledigaeth i gryfhau cyfraniad y sector gwirfoddol i ostwng aildroseddu. Rôl lawn y sector yw gweithredu fel eiriolwyr; ymgyrchwyr, wrth lunio ynghyd â chyflenwi gwasanaethau a galluogi gwirfoddoli. Bydd yn ystyried y ffocws mwy ar gomisiynu lleol; Swyddfa'r Trydydd Sector y "Bartneriaeth mewn Gwasanaethau Cyhoeddus: Cynllun gweithredu ar gyfer cynnwys y trydydd sector"; yr angen am gadarnhau cydymffurfiant gyda'r Compact rhwng y Llywodraeth a'r sector gwirfoddol a bydd yn cyflenwi Cynllun Gweithredu'r Trydydd Sector sy'n cael ei ddatblygu gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

ATODIAD C: PRIF GYSYLLTIADAU GWE

Y cynllun strategol traws-lywodraeth tair blynedd i ostwng aildroseddu a diogelu'r cyhoedd.<http://noms.justice.gov.uk/news-publications-events/publications/consultations/RRSP_2008-2011>

Cynllun Gweithredu Trydydd Sector NOMS http://noms.justice.gov.uk/news-publications-events/publications/consultations/BWC_third_sector_08

Ymgynghoriad Gwella Iechyd, Cefnogi Cyfiawnder yr Adran Iechyd. http://www.dh.gov.uk/en/Consultations/Liveconsultations/DH_080816

Datganiad yr Ysgrifennydd Cyfiawnder ar ail adolygiad Carter http://www.justice.gov.uk/news/newsrelease051207a.htm

Adolygiad Corston o ferched bregus yn y System Cyfiawnder Troseddol http://www.homeoffice.gov.uk/documents/corston-report/

Ymateb y llywodraeth i Corston http://www.justice.gov.uk/docs/corston-review.pdf

Fframwaith Comisiynu 2007/8:http://noms.justice.gov.uk/news-publications-events/publications/strategy/Nat_Commissioning_Fwork_0708?view=Standard&pubID=440172 .

EIA ar Fframwaith Comisiynu 2007/8. http://noms.justice.gov.uk/news-publications-events/publications/strategy/NOMS_EIA_NCF2 -

ATODIAD D: GEIRFA

Cynghreiriau	Menter NOMS i greu cynghreiriau gyda'r Sectorau Corfforaethol, Dinesig a Ffydd a Gwirfoddol sy'n rhoi'r cyfle i droseddwyr gael hyfforddiant, cyflogaeth a gwasanaethau prif lif i'w helpu i ailsefydlu ac ailintegreiddio.
CDRP	Partneriaeth Gostwng Troseddu ac Anhrefn rhwng yr heddlu, awdurdodau lleol, prawf, iechyd, sector gwirfoddol a grwpiau lleol o drigolion a busnesau i ddelio â phroblemau blaenoriaeth troseddu ac anhrefn.
Cydweithio	Dau sefydliad neu fwy'n cydweithio i sicrhau meysydd diddordeb cyffredin a'r deilliannau angenrheidiol.
Comisiynu	Mae hyn yn golygu gwahanu manylebau gwasanaethau i'w cyflenwi oddi wrth gyflenwi'r gwasanaethau hynny.
Comisiynydd	Y Comisiynydd sy'n penderfynu pa wasanaethau sydd eu hangen, sy'n gosod blaenoriaethau ac yn trafod gyda darparwyr i sicrhau cyflenwad.
Cyd-gomisiynu	Dau sefydliad neu fwy yn uno cyllidebau i gomisiynu gwasanaethau gyda deilliannau cyffredin neu rai gyda'r un budd.
LAA	Cytundebau Ardal Lleol.
LCJB	Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol.
LSP	Partneriaeth Strategol Leol.
NOMS	Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr:.
OM	Rheoli Troseddwyr.
Partneriaeth	Model o gydweithio rhwng dau sefydliad. Disgwylir i gomisiynwyr annog hyn a chyfranogi. Byddwn hefyd yn disgwyl i'n prif ddarparwyr chwarae rôl lawn mewn trefniadau partneriaeth.
Cynllun Comisiynu Rhanbarthol	Dogfen a gyhoeddir gan bob Rheolwr Troseddwyr Rhanbarthol (ROM) i osod sylfaen ar gyfer eu hamgylchedd comisiynu rhanbarthol.
ROM	Rheolwr Troseddwyr Rhanbarthol (Cyfarwyddwr Rheoli Troseddwyr yng Nghymru).
SLA	Cytundeb ffurfiol rhwng dwy ran o'r un sefydliad sy'n nodi gwasanaeth i'w gyflenwi a chyfrifoldebau pob parti yn y cytundeb.
Trydydd Sector	Grwpiau cymuned a gwirfoddol, elusennau cofrestredig, sefydliadau, ymddiriedolaethau a nifer cynyddol o fentrau a grwpiau cydweithredol cymdeithasol. Maen nhw'n rhannu nodweddion cyffredin yn yr amcanion cymdeithasol, amgylcheddol neu ddiwylliannol y maen nhw'n anelu atyn nhw; eu hannibyniaeth o lywodraeth ac yn ail-fuddsoddi gweddill ar gyfer yr amcanion hynny.

Notes